



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Ysgoloriaeth Ymchwil tair blynedd yn yr Adran Seicoleg Gymhwysol, o fewn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Noddwyd yr Ysgoloriaeth Doethuriaeth (h.y. PhD) gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Maes ymchwil: Cyfweld ysgogiadol (motivational interviewing) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyddiad dechrau: 24 Medi 2018 (gall yr ymgeisydd ddechrau yn hwyrach os oes rheswm da, ond erbyn diwedd Ionawr 2019 ar yr hwyraf).

Hyd yr ymchwil: 3 blynedd

Dyddiad cau: 5 o'r gloch, Dydd Gwener, Awst 25ain 2018

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn awyddus i benodi unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â doethuriaeth ym maes cyfweld ysgogiadol (motivational interviewing). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn Ysgoloriaeth am dair blynedd a fydd yn cael ei hariannu ar y cyd rhwng Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Y testun: Nod yr ymchwil hwn yw llunio rhaglen hyfforddiant ar gyfweld ysgogiadol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd. Diffinnir cyfweld ysgogiadol (CY) fel dull person-canolog, cyfeiriol i annog yr unigolyn i newid. Nod y broses yw helpu'r unigolyn i ddeall y broses meddwl sydd yn arwain at ymddygiad amhriodol, er mwyn newid prosesau meddwl i ddatblygu ymddygiadau eraill sy'n hybu iechyd.

Awgrymwyd bod siaradwyr dwyieithog yn cynhyrchu mwy o emosiynau wrth drafod materion yn eu mamiaith. Nodwyd hefyd bod rôl iaith yn rhan bwysig o'r broses o gynrychioli emosiynau a brofwyd yn rhwystr i gleientiaid dwyieithog sy'n derbyn therapi yn eu hail iaith.

Yng Nghymru, mae nifer o wahanol weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant ar sgiliau CY (e.e. dietegwyr, fferyllwyr, seicolegwyr clinigol, nyrsys practis), ar ôl cymhwyso yn bennaf. Felly, amcanion y gwaith ymchwil yw i:

- a) Sefydlu safbwyntiau ymarferwyr clinigol, defnyddwyr gwasanaeth ac arbenigwyr ar y defnydd o gyfweld ysgogiadol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- b) Cyfieithu a dilysu rhaglen hyfforddiant cyfweld ysgogiadol (CY) i ymarferwyr iechyd Cymraeg ei hiaith a
- c) Gwerthuso barn defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr am ddarpariaeth o ymgynghoriadau perthnasol i CY drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y dyfarniad: Dyddiad cychwyn fydd 24 of Fedi 2018 (neu mor fuan â phosib ar ôl hynny, ond erbyn Ionawr 2019 ar yr hwyra'). Gwerth grant cynhaliath yr Ysgoloriaeth fydd **£14,777**, ynghyd ag arian ychwanegol i gefnogi ymchwil gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Brifysgol

Mae'r ysgoloriaeth yn agored i bawb o'r Ddinas Unedig (DU) a myfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd sydd yn bodloni amodau preswylwyr y DU. **Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn rhugl yn y Gymraeg yn llafar ac ysgrifenedig, er mwyn arwain a chyflwyno'r gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Gwybodaeth gyffredinol: Mae'r Adran Seicoleg Gymhwysol yn unigryw yng Nghymru, gan ei fod yn rhan o Ysgol sydd yn cynnwys adrannau meysydd iechyd yn ogystal â gwyddorau iechyd. Mae yna gyfleusterau ymchwil rhagorol yn cefnogi rhaglenni rhyngddisgyblaethol arloesol ac yn cynnig amgylchedd ardderchog ar gyfer hyfforddiant ôl-raddedig.

Manylion pellach am y Brifysgol:

<http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/default.aspx>

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio a phrifysgolion Cymru, er mwyn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil yn noddi myfyrwyr i astudio tuag at ddoethuriaeth er mwyn hyrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg a

meithrin ymchwilwyr o'r radd flaenaf.

Bydd cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus ymuno a Changen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg a dod yn rhan o rwydwaith o fyfyrwyr a staff cyfrwng Cymraeg ar draws amryw o feysydd ymchwil yn y Brifysgol.

Manylion pellach am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/>

Danfonwch CV gyda datganiad ategol byr i dhjames@cardiffmet.ac.uk

Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais: 5pm Awst 25ain 2018.

Cyfweliadau: Dydd Mercher, 5ed Fedi 2018

Cysylltwch â: Dr Delyth James (dhjames@cardiffmet.ac.uk) neu Daniel Tiplady

(dtiplady@cardiffmet.ac.uk) am ragor o wybodaeth.